

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22

Mawrth 2022



1. Cyflwyniad

- 1.** Ar 15 Chwefror 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22,¹ a Nodyn Esboniadol cysylltiedig.² Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog yn y cyfarfod ar 2 Mawrth 2022.³
- 2.** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22, a gafodd ei gosod ar 22 Mehefin 2021.⁴ Mae'n nodi nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, Addasiadau i'r Grant Bloc, arian a dynnwyd o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyciadau arfaethedig o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol.
- 3.** Mae'r Ail Gyllideb Atodol hefyd yn cynnwys addasiadau i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru, fel yr ystyriodd y Pwyllgor ar 21 Ionawr 2022.⁵

¹ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021 i 2022](#), 15 Chwefror 2022

² Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022

³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022

⁴ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2021 i 2022](#), 22 Mehefin 2021

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 21 Ionawr 2022, Eitem 7


2. Dyraniadau cyffredinol

4. Mae'r Nodyn Esboniadol⁶ yn datgan bod yr Ail Gyllideb Atodol yn dyrannu £2.1 biliwn ychwanegol mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) i adrannau Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r cynnydd a ganlyn o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2021:









- £1.7 biliwn mewn adnodd cyllidol (9.7 y cant);
- £420.3 miliwn ar gyfer cyfalaf cyffredinol (16.8 y cant);
- £80.4 miliwn mewn adnodd anghyllidol (8.3 y cant).

5. Caiff y cynnydd hwn ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad o £59 miliwn (neu 73.7 y cant) mewn dyraniadau ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol.

6. O'i gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf, mae dyraniadau DEL i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu o £20.9 biliwn i £23.1 biliwn, sef cynnydd o 10.2 y cant, fel y dangosir yn y ffeithlun isod.



⁶ Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol, Chwefror 2022, Tabl 3.1

	Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf	Newid o Gyllideb Atodol Gyntaf i Ail Gyllideb Atodol
 Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£10,537m	£793m 8.1% ▲
 Cyllid a Llywodraeth Leol*	£5,394m	£666m 14.1% ▲
 Y Gymraeg ac Addysg**	£2,796m	£358m 14.7% ▲
 Newid Hinsawdd	£2,770m	£137m 5.2% ▲
 Yr Economi	£707m	£111m 18.6% ▲
 Materion Gwledig	£367m	£11m 3.0% ▲
 Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£352m	£30m 9.3% ▲
 Cyfiawnder Cymdeithasol	£146m	£22m 17.5% ▲

Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd ac Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21⁷

Nodiadau:

* Heb gynnwys tua £722 miliwn mewn incwm ardrethi annomestig.

** Yn cynnwys dyraniad o £498 miliwn o refeniw anghyllidol ar gyfer Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr.

⁷ Llywodraeth Cymru, *Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol*, Chwefror 2022, Tabl 3.1

3. Cyllid

7. Ar 3 Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU⁸ fesurau i helpu gyda chostau byw yn sgil y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni.⁹ Roedd hyn yn cynnwys ad-daliad treth gyngor o £150 o fis Ebrill 2022 ar gyfer aelwydydd yn Lloegr sydd ym mandiau treth gyngor A-D. Dywedodd cyhoeddiad Llywodraeth y DU y byddai Llywodraeth Cymru yn cael £175 miliwn o gyllid canlyniadol o ganlyniad i'r penderfyniad hwn,¹⁰ gan nodi y gall y gweinyddiaethau datganoledig ddewis a ydynt am wario'r cyllid hwn eleni neu'r flwyddyn nesaf.¹¹ Mae rhagor o fanylion ynghylch y cyllid a ddyrannwyd drwy'r Ail Gyllideb Atodol i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw wedi'u cynnwys ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

8. Ar 9 Chwefror 2022, dywedodd y Prif Weinidog¹² na fyddai Cymru yn cael unrhyw arian ychwanegol o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Mewn ymateb, dywedodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys¹³ nad oedd hynny'n wir ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cael £180 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett o ganlyniad i'r ad-daliad treth gyngor.

9. Yn ei llythyr ar 11 Chwefror 2022,¹⁴ cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai Llywodraeth Cymru yn cael mwy na'r dyraniadau cyllid dangosol blaenorol.

10. Eglurodd y Gweinidog yr addasiadau diweddar i gyllid Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ar 2 Mawrth:

"So, every year, the Welsh Government and all devolved Governments receive an indication from HM Treasury of any changes to the in-year budgetary position that we should expect at the UK supplementary estimates. So, on 26 January, Treasury informed us that we could expect a further £178 million as a result of spending in England, and this then was on top of the £270 million that had been announced on 19 December to respond to the omicron variant.

⁸ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: Mwy na £330m i helpu pobl i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw](#), 14 Chwefror 2022

⁹ Ofgem, [Datganiad i'r Wasg: Price cap to increase by £693 from April](#), 3 Chwefror 2022

¹⁰ Trysorlys EM, [Stori Newyddion: Millions to receive £350 boost to help with rising energy costs](#), 3 Chwefror 2022

¹¹ Trysorlys EM, [Stori Newyddion: Millions to receive £350 boost to help with rising energy costs](#), 3 Chwefror 2022

¹² Twitter, [@PrifWeinidog](#), 9 Chwefror 2022

¹³ Twitter, [@SimonClarkeMP](#), 9 Chwefror 2022

¹⁴ [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid](#), 11 Chwefror 2022

*We were told that this funding wouldn't be able to be carried over into the next financial year. That was funding for Wales totalling £448 million, which is a significant amount of money late on in the financial year. And I would add at this point that, in previous years, when we've had very late allocations, we have had the ability to carry over funding. So, I think that this speaks to the difficult parameters within which we have to operate and why it is so important that we keep pressing for further flexibilities."*¹⁵

11. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y cyllid ychwanegol sy'n ddyledus i Gymru o ganlyniad i'r dyraniadau costau byw yn Lloegr:

*"... on 3 February, the UK Government ... announced its council tax rebate scheme. At that point, they said it would mean an additional £175 million for Wales. That was subsequently then increased to £180 million. But the latest supplementary estimates position issued to the Welsh Government on 8 February does reveal that increase of £180 million to reflect the council tax rebate scheme, but it's more than offset by a reduction of £189 million in our overall position. So, overall, following that announcement, we were £9 million worse off."*¹⁶

12. Yn ei llythyr ar 11 Chwefror 2022, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae hyn wedi creu haen ychwanegol, dda i ddim o ansicrwydd ar adeg pan ydym eisoes yn wynebu heriau eithriadol. Rwyf wedi ysgrifennu ar frys gyda'r Gweinidogion Cyllid Datganoledig eraill at y Prif Ysgrifennydd i fynegi'r pryder a rannwn, i ofyn am ailgyflwyno'r cyllid hwn, ac i ofyn am y gallu i'w gario drosodd i 2022-23."*¹⁷

13. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i'r Prif Ysgrifennydd gyd-adolygu prosesau'r gyllideb yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn.¹⁸

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraffau 17 a 18

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 19

¹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2022

¹⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 11 Chwefror 2022

Symiau canlyniadol a throsglwyddiadau yn y Gyllideb

14. Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol¹⁹ yn awgrymu bod cyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £1.1 biliwn yn bennaf oherwydd symiau canlyniadol Barnett a throsglwyddiadau'r DU. Roedd yn cynnwys:

- Cyllid o £737.8 miliwn gan Lywodraeth y DU o adnodd cyllidol, sy'n cynnwys gostyngiad o £45.7 miliwn oherwydd addasiad grant bloc a ailgyfrifwyd;
- Cynnydd mewn rhagolygon treth ddatganoledig (Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi) o £98 miliwn;
- Gostyngiad net o £72.1 miliwn mewn cyfalaf cyffredinol. Yn ogystal â chynnydd mewn symiau canlyniadol Barnett, mae hefyd yn adlewyrchu gostyngiad o £149.1 miliwn o ganlyniad i addasiad gwariant terfyn gwariant adran (DEL) cyfalaf 2020-21;
- Gostyngiad mewn cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol o £18 miliwn;
- Cynnydd o £62.5 miliwn mewn adnodd anghyllidol.²⁰

15. Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu bod Llywodraeth Cymru yn newid £415.4 miliwn o gyllidebau refeniw i gyllidebau cyfalaf ac yn tynnu £50 miliwn i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol.

16. Er nad oedd Amcangyfrifon Atodol y DU 2021-22²¹ wedi'u cyhoeddi pan osodwyd yr Ail Gyllideb Atodol, mae Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru yn cynnwys y dyraniadau disgwylidiedig a ganlyn o'r amcangyfrifon hynny:

- £134 miliwn o refeniw ychwanegol;
- Gostyngiad o £54 miliwn mewn cyfalaf cyffredinol; a
- Gostyngiad o £18 miliwn mewn cyfalaf trafodiadau ariannol.

17. Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol yn dweud bod y refeniw ychwanegol disgwylidiedig o £134 miliwn yn 'net' o £180.2 miliwn o gyllid ychwanegol mewn

¹⁹ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022, Tabl 3.1

²⁰ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022, Tabl 3.1

²¹ Trysorlys EM, [Amcangyfrifon Atodol 2021-22](#), 22 Chwefror 2022

perthynas â mesurau ad-daliad y Dreth Gyngor ac “fe gaiff ei gario ymlaen i’w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i mewn i 2022-23”.²²

18. Darparodd y Gweinidog y sefyllfa ariannu ddiweddaraf o ganlyniad i drosglwyddiadau diweddar a symiau canlyniadol, gan nodi:

“... of the additional resources set out in the supplementary budget, £686 million of those arise as a result of Barnett consequentials that were confirmed in the UK Government’s supplementary estimates: £629 million were fiscal revenue; £18 million non-fiscal revenue; £57 million general capital, and then there was a reduction of £18 million financial transactions capital.”²³

19. Pan ofynnwyd sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw drosglwyddiadau ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU yn cael eu cyfrifo’n gywir, dywedodd un o swyddogion y Gweinidog fod llawer o sgysiau a thrafodaethau yn cael eu cynnal i wneud yn siŵr eu bod, yn ôl y fethodoleg a ddefnyddiwyd, yn cytuno â hynny, gan ychwanegu bod y broses wedi’i hategu gan adroddiad tryloywder grant bloc y Trysorlys, y cyhoeddwyd yr adroddiad olaf ym mis Rhagfyr 2021.²⁴

Hyblygrwydd o ran cyllid

20. Mae’r Nodyn Esboniadol yn nodi nad yw’r adnoddau a gynlluniwyd i gael eu tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru wedi newid, sef £125 miliwn.²⁵ Mae hefyd yn dangos y £50 miliwn a dynnwyd i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer cyfalaf trafodion ariannol, a nodir ym mharagraff 15. Fodd bynnag, nid yw’r Nodyn Esboniadol yn rhoi manylion y cyllid a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y balansau hysbys a disgwylidig ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22, cadarnhaodd y Gweinidog mai uchafswm o £350 miliwn oedd Cronfa Wrth Gefn Cymru ar ddiwedd 2021, gan ychwanegu:

“We’ve drawn down £175 million in this financial year—that’s the maximum that we are able to draw down. But that then creates a maximum headroom for us to be able to put money back into the Wales reserve if we do have

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 25

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 51

²⁵ Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol, Chwefror 2022, Tabl 3.1

*underspends ... I would hope to be in a position to go into the financial year having put money back into the reserve."*²⁶

21. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 ei bod yn disgwyl y byddai'r cronfeydd wrth gefn presennol yn ystod y flwyddyn o fewn y terfynau cario ymlaen y cytunwyd arnynt.²⁷ Fodd bynnag, gyda digwyddiad cyllidol y DU yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2022, mae posibilrwydd y gallai symiau canlyniadol cadarnhaol neu negyddol fynd â'r cyllid y tu hwnt i'r terfynau.²⁸

22. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn ceisio cytundeb gan Drysorlys EM i alluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio blwyddyn ariannol ychwanegol lawn i wario unrhyw ddyraniadau o'r fath, gan y byddai hynny'n helpu'n fawr o ran rheoli'r gyllideb. Ychwanegodd y Gweinidog, o ran y trefniant presennol:²⁹

*"... it doesn't really lend itself to more longer term strategic planning for the use of funding. So, that's one of the challenges and it's why we're asking Treasury to allow us a full financial year to use funding from the point at which consequentials come forward."*³⁰

23. Yn ôl y Gweinidog, mae'r dull hwn yn angenrheidiol oherwydd maint Cronfa wrth Gefn Cymru:

*"... if the UK Government came forward with even further allocations in respect of consequentials within this financial year, then if they come very late, as they did last year, that does present us with challenges, because the size of the Wales reserve that we're able to use to manage the money across years is very small."*³¹

Barn y Pwyllgor

24. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog yn parhau i wynebu anawsterau o ran cael gwybodaeth amserol a chywir gan Drysorlys EM am newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru,

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraffau 33-34

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Rhagfyr 2021, paragraff 23

²⁸ Mae Cyllideb y DU 2022 wedi'i hamserlennu ar gyfer 23 Mawrth 2022. Gweler: Trysorlys EM, [Forecast 2022 date announcement](#), 23 Rhagfyr 2021

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Rhagfyr 2021, paragraff 26

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraffau 33-34

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Rhagfyr 2021, paragraff 33

ac mae'n nodi'r anawsterau penodol a gafodd y Gweinidog tua diwedd y flwyddyn ariannol hon.

25. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y gall Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud mwy i ddarparu tryloywder pan wneir cyhoeddiadau ariannu a fyddai'n arwain at drosglwyddiadau cadarnhaol neu negyddol a symiau canlyniadol. Yn benodol, mae angen mwy o dryloywder ynghylch y symiau a geir gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys a ydynt yn ymwneud ag arian 'newydd' ai peidio. Mae'r materion sy'n ymwneud â'r cyllid canlyniadol a gaiff Llywodraeth Cymru yn sgil yr ad-daliad treth gyngor a gyhoeddwyd yn Lloegr yn enghraifft o hyn.

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau a wnaed gan swyddogion bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adolygu'r cyllid a ddarperir gan y Trysorlys i sicrhau ei fod yn cael ei ddyrannu yn unol â'r fethodoleg gywir. Fodd bynnag, mae diffyg gwybodaeth gyhoeddus yn ei gwneud yn anodd iawn dwyn prosesau o'r fath i gyfrif, yn enwedig wrth geisio deall y symiau cyllid canlyniadol y dylai Llywodraeth Cymru eu cael pan fydd Llywodraeth y DU yn symud cyllid o feysydd nad ydynt wedi'u datganoli i feysydd datganoledig.

27. Yn anffodus, nid yw'r rhain yn bryderon newydd. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid yn y Bumed Senedd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru³² a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd³³ yn galw arnynt i gadarnhau mewn unrhyw gyhoeddiadau cyllid yn y dyfodol a oeddent yn ymwneud ag arian 'newydd' ac y dylent ddilyn canllawiau'r gyllideb i sicrhau tryloywder. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi argymhell yn ei adroddiad ar y fframwaith cyllidol³⁴ y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo o ran sicrhau tryloywder cyllid drwy gyhoeddi ei gwaith cyfrifo ar gyfer cyllid canlyniadol yn dilyn cyhoeddiadau gwariant y DU.

28. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod patrymau tebyg yn dod i'r amlwg ym mlynnyddoedd cynnar y Chweched Senedd ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud mwy o ymdrech i gyflwyno cyhoeddiadau ynghylch cyllid mor glir â phosibl er mwyn sicrhau'r tryloywder mwyaf posibl ac i alluogi gwaith craffu effeithiol.

29. O ran hyblygrwydd cyllid, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog y dylai Llywodraeth Cymru gael blwyddyn i ddyrannu symiau canlyniadol cadarnhaol neu negyddol y bydd Trysorlys EM yn rhoi gwybod amdanynt yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Mae hon yn egwyddor resymol

³² Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), 24 Medi 2020

³³ Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gan y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), 24 Medi 2020

³⁴ Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol, 2 Chwefror 2021, Argymhelliad 12

iawn a fyddai'n caniatáu ar gyfer rheoli cyllideb yn effeithiol a dull y mae Trysorlys EM wedi'i ganiatáu yn flaenorol. Mae'r Pwyllgor felly'n siomedig ei bod yn ymddangos eu bod yn ymadael â'r arfer gorau.

30. Mae'r Pwyllgor yn nodi, yn ei dogfennaeth i gefnogi Cyllideb Derfynol 2022-23, a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022, fod Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn cario cyllid o £180 miliwn ymlaen o 2021-22, "y tu allan i drefniadau arferol Cronfa Wrth Gefn Cymru", i ariannu mesurau i ymateb i'r argyfwng costau byw.³⁵ Mae'r cyllid hwn yn deillio o gynllun gostyngiadau treth gyngor Llywodraeth y DU.

31. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion y Gweinidog i ofyn am gydadolygiad, gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, o'r prosesau cyllidebol yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn ac mae'n credu bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y diffyg hyblygrwydd i fwrw ymlaen â newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyllid Llywodraeth Cymru.

32. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i ddychwelyd unrhyw danwariant i Gronfa Wrth Gefn Cymru os yw'n bosibl. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfrifon cyfunol 2020-21 nac adroddiad alldro ar gyfer 2020-21 hyd yma. Yn unol â'r argymhellion a wnaed mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23,³⁶ mae'r Pwyllgor o'r farn bod cyflwyno adroddiadau amserol a rheolaidd ar falansau Cronfa Wrth Gefn Cymru, gan gynnwys sut y mae penderfyniadau gwariant yn effeithio ar y balans, yn hanfodol ar gyfer tryloywder a gwaith craffu.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn Llywodraeth Cymru ynghylch pwysigrwydd cael gwybodaeth amserol a chywir am newidiadau i'r gyllideb ac mae'n cefnogi'r Gweinidog o ran cael gwybodaeth o'r fath gan Drysorlys EM yn y dyfodol.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyhoeddi gwybodaeth am symiau canlyniadol yn ystod y flwyddyn a'r trosglwyddiadau y mae'n eu cael gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys sut y cânt eu cyfrifo ac a ydynt yn cael eu gwneud yn unol â'r fethodoleg y cytunwyd arni, yn enwedig pan fo ffigurau gwahanol yn cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd ychwanegol i wario'r dyraniadau y mae'n eu cael yn hwyr yn

³⁵ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2022-23: Nodyn Esboniadol, Mawrth Chwefror 2022, paragraff 1.05

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 11

y flwyddyn ariannol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael â Thrysorlys EM ar y mater hwn.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cydadolygiad o'r prosesau cyllidebol yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn y mae wedi gofyn iddynt gael eu cynnal pan geir ymateb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae'n gofyn bod manylion ynghylch ei gylch gorchwyl yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor cyn cychwyn, gan gymryd bod ei gais yn cael ei ganiatáu.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar y sefyllfa alldro a hefyd fel rhan o'r ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â phob cyllideb yn y dyfodol.

4. Dyraniadau

33. Mae'r Nodyn Esboniadol³⁷ sy'n cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol yn cyflwyno'r newidiadau i ddyraniadau ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 o dan dri phrif bennawd:

- Cyllid COVID-19 y mae adnodd cyllidol a chyllid cyfalaf cyffredinol wedi'u dyrannu ar ei gyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi "Nid yw'r holl ddyraniadau COVID-19 yn rhai cylchol yn 2022-2023";
- Dyraniadau eraill i'r/o'r cronfeydd wrth gefn; a
- Throsglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant (MEG) i MEG.

34. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi crynodeb o'r newidiadau fesul MEG o dan y penawdau hyn. Mae hyn yn dangos bod dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £1.4 biliwn net ar gyfer COVID-19, gyda phob un ond £45.6 miliwn ohono ar gyfer cyllid adnodd cyllidol. Mae dyraniadau eraill gyda chyfanswm gwerth net o £728.7 miliwn hefyd wedi'u cynnwys.

35. Tabl 1: Ail Gyllideb Atodol 2020-21. Newidiadau fesul categori (£m)

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	2021-2022 Y Gyllideb Atodol Mehefin 2021	MEG i MEG Trosglwy ddiadau	Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd Wrth Gefn		Cyfanswm Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd Wrth Gefn	Dyraniadau Eraill (i) / o Cronfeydd wrth Gefn	2021-22 Cynlluniau Newydd Ail Gyllideb Atodol Chwefror 2022
			Adnodd Cyllidol	Cyfalaf Cyffredi nol			
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,744	(4)	613	46	658	139	10,537
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,728	(7)	333	0	333	340	5,394
Addysg a'r Gymareg	2,438	5	116	18	133	219	2,796
Newid Hinsawdd	2,633	10	113	(37)	76	51	2,770
Yr economi	596	(6)	153	15	169	(52)	707
Materion Gwledig	356	(0)	8	4	12	(1)	367
Cyfiawnder Cymdeithasol	124	1	16	1	17	4	146
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	322	0	1	0	1	29	352
	20,941	0	1,353	46	1,398	729	23,068

Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd ac Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21³⁸

³⁷ Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol, Chwefror 2022, Tabl 3.1

³⁸ Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol, Chwefror 2022

Dyraniadau i gefnogi pobl gydag argyfwng costau byw

36. Ar 14 Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o "fesurau estynedig" i helpu pobl gydag argyfwng costau byw, gan ddyrannu cyfanswm o £330 miliwn.³⁹ Mae hyn yn cynnwys taliad o £150 i aelwydydd sy'n byw mewn eiddo ym mandiau Treth y Cyngor A-D, yn unol â chyhoeddiad tebyg a wnaed yn Lloegr ar 3 Chwefror (gweler paragraff 7) a hefyd yr holl aelwydydd hynny sy'n derbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, waeth beth fo'r band eiddo. Bydd y taliadau, y mae £152 miliwn wedi'i ddyrannu ar eu cyfer, yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol "cyn gynted â phosibl".⁴⁰ Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai bwriad y pecyn £330 miliwn oedd cefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw yn ystod blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23:

*"In this supplementary budget, you'll see £152 million allocated to this, and the large part of that, really, is about providing the £150 cost-of-living payment to all households in council tax bands A to D, and also those households in receipt of council tax reduction scheme support in any band. There is a further £25 million for local authorities to provide discretionary support, recognising that there will be individuals and households who fall out of that eligibility criteria but still very much need support."*⁴¹

37. O ran gwneud pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwneud â gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o bopeth y mae ganddynt hawl iddo⁴² gan ychwanegu:

*"... the help might be there for those people, but also people who are facing hardship for the first time, who might feel embarrassed to reach out for help. So, we need to just break down those kinds of barriers and make sure that people who are eligible for that funding come forward for it."*⁴³

³⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: Mwy na £330m i helpu pobl i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw](#), 14 Chwefror 2022

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: Mwy na £330m i helpu pobl i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw](#), 14 Chwefror 2022

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 8

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 76

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 76

38. Gofynnodd y Pwyllgor pam na wnaethpwyd y cyhoeddiad hwn cyn y ddatl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 ar 8 Chwefror, er mwyn caniatáu i'r senedd graffu gymaint â phosibl, dywedodd y Gweinidog mewn ymateb:

*"We had no forewarning at all, so we couldn't start to plan, but we were in a position then to act as quickly as we possibly could to put in place that support and make the announcement."*⁴⁴

Dyraniadau eraill

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

39. Yn gyffredinol, mae dyraniadau DEL ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu £792.8 miliwn net (neu 8.1 y cant) yn yr Ail Gyllideb Atodol o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22. O'r arian hwn, mae'r dyraniadau ar gyfer refeniw yn cynyddu £658.6 miliwn (neu 7 y cant) a chyfalaf o £134.1 miliwn (neu 34.6 y cant). Mae'r cynnydd net yn adlewyrchu cyllid ychwanegol o £657.5 miliwn ar gyfer COVID-19 ac mae'n cynnwys y cymorth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021⁴⁵ gan Lywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y dyrannwyd £551 miliwn ar eu cyfer, gan gynnwys:

- £411 miliwn ar gyfer costau parhaus o ymdrin â'r pandemig tan fis Ebrill 2022, gan gynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen frechu, profi, PPE a safonau glanhau newydd ar gyfer rheoli heintiau;
- £100 miliwn ar gyfer cynlluniau adfer Byrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys mynd i'r afael ag effaith y pandemig ar amseroedd aros; a
- £40 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer offer ac addasu ystâd y GIG i "gynyddu capasiti ar gyfer triniaethau rheolaidd, tra'n parhau i gynnal manau diogel o ran COVID".⁴⁶

40. Pan ofynnwyd iddi beth fyddai'r cyllid ychwanegol o £411 miliwn yn ei gyflawni, dywedodd y Gweinidog:

"... this particular funding was for NHS stabilisation. It also included funding for contact tracing, for vaccination programmes and for personal protective

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 16

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: £551m o gyllid COVID ychwanegol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol](#), 19 Awst 2021

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: £551m o gyllid COVID ychwanegol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol](#), 19 Awst 2021

*equipment and other COVID response. So, it was very much about continuing the response to the pandemic."*⁴⁷

41. Ychwanegodd y Gweinidog fod y cyllid ychwanegol a ddarperir yn cael effaith ar ofal iechyd rheng flaen:

*"... we've seen, through some of the modelling that we've done and looking at the estimates of waiting lists, that what we're doing already is having an impact, so our waiting lists aren't as long as we would have expected them to be, thanks to the investment that we are making."*⁴⁸

Gofal cymdeithasol

42. Mae'r Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys £140.7 miliwn yn benodol ar gyfer adferiad gofal cymdeithasol,⁴⁹ gydag elfennau o'r cyllid hwn wedi'u gwasgaru ar draws y Llywodraeth Leol; a MEGs Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Amlinellodd y Gweinidog sut y byddai'r cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau gofal cymdeithasol yn cael ei ddyrannu:

*"... referring first to the £42.7 million in the supplementary budget for this year, that was to create a package of support based on what we were told by the care action committee was required for this year; £20 million of that was to support social services for children. There was £9.8 million for the regional partnership boards work, £5.5 million to support unpaid carers, £3.8 million to support early intervention and prevention, and then there's another range of smaller items, including funding for the third sector, unaccompanied asylum seekers, and the work that we're doing to advertise social care as an attractive profession to people."*⁵⁰

43. Yn ogystal â'r dyraniadau hyn, ar 10 Chwefror 2022⁵¹ cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daliad untro o £1,498 i tua 53,000 o weithwyr gofal cymdeithasol cyn didyniadau ar gyfer treth a chyfraniadau yswiriant gwladol. Gallai gweithwyr gofal ar y gyfradd sylfaenol o dreth incwm ddisgwyl derbyn £1,000 ar ôl didyniadau. Bydd y taliad, y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 58

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 62

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022, Tudalen 5

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 67

⁵¹ Llywodraeth Cymru, [Buddsoddi £96m i roi taliad ychwanegol o £1,000 i ddegau o filoedd o staff gofal cymdeithasol](#), 10 Chwefror 2022

iddo gael ei gynnwys mewn cyflog o fis Ebrill i fis Mehefin 2022, yn costio £96 miliwn.⁵² Mae'r buddsoddiad hwn yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir drwy'r Setliad Llywodraeth Leol i alluogi awdurdodau lleol i dalu'r costau o dalu gweithwyr gofal cymdeithasol y cyflog byw gwirioneddol o fis Ebrill 2022.⁵³

44. O ran cymorth i ofalwyr di-dâl a hosbisau, dywedodd y Gweinidog:

"The supplementary budget includes £0.27 million for the third sector carers hardship fund, so that is a pot of money that carers can go to to access funding specifically put there for carers, and anything we can do, really, to promote that to carers is really important.

And on the hospices side, we did, in the worst part of the pandemic, particularly around the lockdown period, provide additional funding for hospices, recognising that so much of their funding is received through fundraising activities and so on, but obviously those couldn't take place at that point, so we did provide additional funding for hospices in recognition of that."⁵⁴

45. Aeth yn ei blaen i ddweud:

"Carers' organisations worked with us in respect of this fund, and I know they've been promoting it really heavily to carers within communities who they are aware of and so on. But, obviously, yes, we would want to do more."⁵⁵

Llywodraeth leol

46. Disgwylir i'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol dderbyn dyraniadau ychwanegol o £666.3 miliwn o fewn yr Ail Gyllideb Atodol. Refeniw yw £526.1 miliwn o'r dyraniadau hynny ac mae £333.5 miliwn o'r swm hwnnw'n ymwneud â dyraniadau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-

⁵² Llywodraeth Cymru, [Buddsoddi £96m i roi taliad ychwanegol o £1,000 i ddegau o filoedd o staff gofal cymdeithasol](#), 10 Chwefror 2022

⁵³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#), 21 Rhagfyr 2021

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraffau 73 a 74

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 76

19. O fewn y dyraniadau COVID-19 hynny, dyrennir £135.5 miliwn i gronfa Caledi Llywodraeth Leol.⁵⁶

47. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud dyraniadau eraill o gronfeydd wrth gefn i lywodraeth leol yn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae'r rhain yn cynnwys £70 miliwn o gyfalaf ychwanegol, i'w ddsbarthu i awdurdodau lleol ar sail cyllid grant cyfalaf cyffredinol Llywodraeth leol. Bydd £65.5 miliwn arall er mwyn talu rhandaliadau blynyddol y Llywodraeth i fargeinion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bae Abertawe a Gogledd Cymru yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ailbroffilio ei chyfraniadau i'r bargeinion.

48. Pan ofynnwyd iddi am y £70 miliwn o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd i lywodraeth leol, esboniodd y Gweinidog:

"... I was able to provide money in this financial year to support local authorities, which they can use in this financial year, they can use it for displacement, or they can put it into reserves and planning for future years, potentially looking at those more difficult years 2 and 3 within the budget."⁵⁷

49. Mae cyllid ar gyfer llifogydd hefyd yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol gyda £19 miliwn i helpu i dalu costau adennill sy'n deillio o'r difrod eang a sylweddol a achoswyd gan lifogydd ym mis Chwefror 2020. Pan ofynnwyd iddi sut y byddai'r Gweinidog yn ariannu difrod mwy diweddar gan stormydd, cadarnhaodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw geisiadau ychwanegol gan lywodraeth leol drwy'r gronfa cymorth ariannol brys hyd yn hyn.⁵⁸

Newid hinsawdd a thrafnidiaeth

50. Mae £75.1 miliwn pellach o gyllid COVID-19 yn y Gyllideb Atodol wedi'i ddyrannu ar gyfer trafndiaeth, sy'n cynnwys £53.1 miliwn ar gyfer rheilffyrdd a £22 miliwn ar gyfer cymorth bysiau.

51. Daeth y fasnachfaint rheilffyrdd yng Nghymru i berchnogaeth gyhoeddus ym mis Chwefror y llynedd.⁵⁹ Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu drwy gydol y pandemig i gefnogi gyda llai o incwm oherwydd lefelau teithwyr, ac mae hyn yn parhau i fod yn angenrheidiol. Nodir yn y Nodiadau Esboniadol:

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, [Cronfa Caledi Llywodraeth Leol](#), 11 Chwefror 2021

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 94

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 98

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: Masnachfaint rheilffyrdd Cymru nawr yn eiddo i'r cyhoedd](#), 8 Chwefror 2021

*"Mae hyn yn ofynnol oherwydd llai o alw gan deithwyr sy'n arwain at ostyngiad o ran refeniw tocynnau, a'r newidiadau o ran sut y mae gwasanaethau trenau yn cael eu rheoli bellach."*⁶⁰

52. Mae'r dibenion ar gyfer cymorth bysiau ychydig yn wahanol. Er bod y galw yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd mai amcan y cyllid oedd:

*"...i gefnogi'r diwydiant bysiau i gynnal a gwella lefelau'r gwasanaethau a ddarperir i ateb y galw sy'n esblygu gan deithwyr a galluogi gweithredwyr a theithwyr i ddefnyddio'r rhwydwaith yn ddiogel drwy'r cyfnod pontio wrth i'r wlad adfer o'r pandemig."*⁶¹

53. Wrth ymateb i gwestiynau ar y cymorth i wasanaethau trên sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Atodol, dywedodd y Gweinidog:

*"... the £53.1 million was allocated to support rail in light of the reduced passenger numbers. During the most difficult point of the pandemic, during lockdown, we were looking at a 95 per cent fall in patronage. It started to get up to about 60 per cent of the demand prior to COVID, and it's still, I think, improving now ... Obviously, we'll be keeping this figure under review and adjusting it accordingly."*⁶²

Gwasanaethau canolog a gweinyddu

54. Y llinell gyllideb ar gyfer costau staff Llywodraeth Cymru o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu bellach yw £225 miliwn, sef cynnydd o £19.7 miliwn neu bron i 10 y cant.

55. Er nad yw'r Nodyn Esboniadol yn nodi unrhyw wybodaeth am y cyllid ychwanegol hwn, dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"... the Welsh Government delegated running cost ... has increased by £19.7 million in the supplementary budget. So, of that, £3.1 million has gone to a pay award for 2021-22; £12 million has gone for 2020-21 for central funded pressures, which includes a pay award, it includes recruitment of additional senior civil servants—around 20 of those—as well as annual salary incremental increases; and then there's about £4.6 million that relates to intra-ministerial expenditure group arrangements, so that's things like

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022, Tudalen 22

⁶¹ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2022, Tudalen 22

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 122

*dealing with the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981, for example, in relation to our ICT contract and social partnership as well. So, this will then be reviewed, in terms of permanent baselining of budgets for 2022-23 going forward."*⁶³

56. Ychwanegodd y swyddog:

*"Over the last couple of years, the Welsh Government, obviously, has had to support a range of staffing pressures in relation to both COVID, but also the UK's departure from the EU as well, which has put additional pressures on that as well, and that's meant some short-term increases to staff numbers. But we have a new Permanent Secretary in place. He's looking at our operating model, he's looking at efficiency, effectiveness, across the Welsh Government and, I'm sure, in time, will be able to say more about that as well."*⁶⁴

Barn y Pwyllgor

57. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r heriau sylweddol a ddaw yn sgil adferiad parhaus COVID-19, yn ogystal ag amgylchiadau economaidd anodd ac mae'n croesawu'r camau a gymerodd Llywodraeth Cymru, drwy'r Ail Gyllideb Atodol, i liniaru'r ffactorau hyn.

58. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dyraniad cyllid i helpu gyda'r argyfwng costau byw yn enwedig o ystyried bod datblygiadau diweddar, megis y cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd mewn biliau ynni, yn awgrymu y bydd y cymorth yn y meysydd hyn yn bwysicach. Mae'r Pwyllgor felly yn falch bod y Gweinidog yn cydnabod y bydd rhai pobl yn wynebu caledi am y tro cyntaf a bod angen i Lywodraeth Cymru chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o gymorth i'r bobl hyn.

59. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod digon yn cael ei wneud i sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn hygyrch i'r rhai sydd ei angen. Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, pwysodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i godi proffil grantiau a chynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw⁶⁵ a gofynnodd am ddatblygu system integredig o gymorth mewn ymateb i'r pwysau ariannol llym sydd ar lawer o deuluoedd.⁶⁶ Mae'r

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 134

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2022, paragraff 135

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, [Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#), Chwefror 2022, Argymhelliad 38

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, [Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#), Chwefror 2022, Argymhelliad 40

Pwyllgor yn credu y gall Llywodraeth Cymru wneud yn well yn y maes hwn ac mae'n ailadrodd ei alwad am i ragor o gamau gael eu cymryd mewn perthynas â'r materion hyn.

60. O ran y dyraniadau ychwanegol a ddarperir i gefnogi'r gwasanaeth iechyd, mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth y Gweinidog bod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith, yn enwedig mewn perthynas ag adferiad o'r pandemig ac wrth fynd i'r afael ag amseroedd aros. Fodd bynnag, gyda mwy na 680,000 o gleifion yn aros i ddechrau triniaeth ym mis Rhagfyr 2021 a mwy na 240,000 o'r rheini'n aros mwy na 36 wythnos,⁶⁷ yn amlwg mae llawer ar ôl i'w wneud. Nid oes llawer o fanylion wedi'u cyhoeddi i egluro sut y mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd wedi mynd i'r afael ag amseroedd aros, na sut y bydd yn mynd i'r afael â hwy gan arwain at y canlyniadau a ddymunir. Mae'r Pwyllgor felly'n credu y dylai Llywodraeth Cymru bennu targedau a disgwyliadau clir ar gyfer lleihau amseroedd aros. Yn fwy cyffredinol, gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy o ran cyflwyno gwybodaeth gyllidebol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau ac effeithiau, yn unol â'r hyn a argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23.⁶⁸

61. Er bod yr Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys amrywiaeth o fesurau ar gyfer gofal cymdeithasol, ni chafodd y Pwyllgor syniad clir o amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a sut y mae'n cysylltu â'r cyllid ychwanegol a ddarperir. Yn yr un modd, o ran cymorth i ofalwyr di-dâl a hosbisau, er i'r Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor ei bod am hyrwyddo'r gwaith y mae gofalwyr yn ei wneud, ni ddarparwyd manylion ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyllid sydd ar gael i ofalwyr y soniodd y Gweinidog amdano a'r gwaith a wneir gyda sefydliadau gofalwyr o ran hyrwyddo, ond mae hefyd yn nodi barn y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru am wneud mwy yn y maes hwn.

62. Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae'r Pwyllgor yn gefnogol iawn i fesurau i wneud y proffesiwn gofal yn fwy deniadol. Hoffem felly i Lywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y defnyddir cyllid yn yr Ail Gyllideb Atodol yn y maes hwn, gan gynnwys sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â phartneriaid/rhanddeiliaid i fonitro ac asesu effeithiolrwydd y mentrau hyn i gefnogi'r gweithlu gofal.

63. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r £70 miliwn o gyllid cyfalaf a ddarparwyd i lywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn deall bod hyn wedi'i ddarparu drwy gyllid cyfalaf cyffredinol, ac felly mater i awdurdodau lleol yw sut i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, o ystyried y "rhagolygon cyfyngedig"⁶⁹

⁶⁷ Llywybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr, StatsCymru (fel ar 7 Mawrth 2022)

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 3

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23: Cyllideb i adeiladu Cymru gryfach, tecach a gwyrdd, tudalen 2

ar gyfer cyfalaf a ddisgrifiwyd wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, mae'r Pwyllgor yn synnu bod cyllid wedi'i ddyrannu ar y sail y gall awdurdodau lleol roi'r cyllid hwn mewn cronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio mewn blynyddoedd ariannol diweddarach. Mae'r Pwyllgor felly'n galw ar y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth am sut y mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu ac eglurder ynghylch amcanion Llywodraeth Cymru ar ei gyfer.

64. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y golled mewn refeniw a achosodd y pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y sector trafniadaeth, yn enwedig gwasanaethau bysiau a threnau, ac mae'n croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i gefnogi parhad y gwasanaethau allweddol hyn. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn argyhoeddedig bod y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau bysiau yn ddigonol, ac mae'n gofyn i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y pennwyd y swm, yn ogystal â'r amcanion a'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer y cyllid hwn.

65. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd o £20 miliwn yng nghostau staff Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ac y byddai'r rhain yn gostau rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y bydd rhywfaint o'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag 20 o swyddi ychwanegol i Uwch-weision Sifil. Mae'r rhain yn cynrychioli cynnydd cymharol sylweddol, ac mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i roi rhagor o wybodaeth am y dyraniadau hyn a'r newidiadau i gostau rhedeg dirprwyedig Llywodraeth Cymru. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb clywed y bydd yr Ysgrifennydd Parhaol newydd yn edrych ar fodel gweithredu Llywodraeth Cymru, ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o ddiweddariadau ar y gwaith y mae'n ei wneud i godi proffil grantiau a chynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ac mae'n ailadrodd ei alwad am ddatblygu system integredig o gymorth mewn ymateb i'r pwysau ariannol llym sydd ar lawer o aelwydydd.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pennu ei thargedau ar gyfer lleihau amseroedd aros ac, yn fwy cyffredinol, gynnwys yn ei dogfennaeth gyllidebol, y canlyniadau a'r effeithiau a ddisgwylir ar gyfer cyllid ychwanegol y GIG a sut y bydd yn datblygu ei chynllun adfer mewn perthynas â'r GIG.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhagor o gamau i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i ofalwyr drwy'r Ail Gyllideb Atodol, gan gynnwys gofaluwr di-dâl, fel eu bod yn ymwybodol o'r cyllid y mae ganddynt hawl iddo ac yn galw am werthuso mentrau o'r fath ac i'r Pwyllgor gael ei hysbysu o unrhyw ganlyniadau.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r £70 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd drwy'r Ail Gyllideb Atodol hon fesul awdurdod lleol, a rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch pam y dyrannwyd hwn, yn ogystal ag egluro'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid hwn eu cyflawni.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch sut y penderfynwyd ar y £22 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaethau bysiau yn yr Ail Gyllideb Atodol, sut y mae wedi asesu digonolrwydd y cymorth hwn i gyflawni ei hamcanion a sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwerthuso ei effaith.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am benodi Uwch-weision Sifil i 20 o swyddi ychwanegol, gan gynnwys pam mae eu hangen, pa rolau y mae'r ymgeiswyr llwyddiannus yn eu gwneud yn y sefydliad ac a yw'r penodiadau'n cael eu gwneud am gyfnod parhaol neu benodol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am gwmpas ac amseriad adolygiad yr Ysgrifennydd Parhaol o fodel gweithredu Llywodraeth Cymru, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

5. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

66. Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2022.⁷⁰

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

67. Ysgrifennodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) at y Pwyllgor ar 28 Medi 2021, i hysbysu'r Pwyllgor o'i fwriad i gyflwyno cyllideb atodol ar gyfer 2021-22.⁷¹

68. Mae Cyllideb Atodol yr Ombwdsmon⁷² yn gofyn am gynydd yng nghyfanswm y gofyniad adnoddau o £178,000 (neu 3.5 y cant), o gymharu â'r Amcangyfrif ar gyfer 2021-22.⁷³ Mae'r gofyniad arian parod net yn cynyddu £176,000 (neu 3.5 y cant). Ceisiwyd adnoddau ychwanegol ar gyfer staff (£85,000) a chostau TGCh (£93,000).

Costau staff - Dyfarniad cyflog (cynydd o £85,000 mewn refeniw)

69. Dywedodd yr Ombwdsmon ei fod wedi cymryd camau i gwrdd â dyfarniad cyflog o 1.75 y cant (£65,000) o fewn ei gyllideb bresennol. Fodd bynnag, dywedodd fod y cynnig cyflog o 1.75 y cant wedi'i wrthod gan undebau llafur ac mae wedi cael ei gynghori gan Adran Rheoli Cyllid Llywodraeth Cymru i gynnwys 'arian wrth gefn' yn ei Gyllideb Atodol ar gyfer dyfarniad cyflog o hyd at 4 y cant. Os yw'r dyfarniad cyflog yn llai na 4 y cant, dywedodd yr Ombwdsmon y byddai'n dychwelyd y swm dros ben fel rhan o'r balans i'w ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.⁷⁴

Costau TGCh (cynydd o £93,000, yn cynnwys £70,000 o refeniw, £21,000 cyfalaf a £2,000 ar gyfer y dibrisiant cysylltiedig)

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 21 Ionawr 2022

⁷¹ [Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid](#), 28 Medi 2021

⁷² Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [Ail Gyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22](#)

⁷³ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22](#)

⁷⁴ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [Ail Gyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22](#)

70. Dywedodd yr Ombwdsom ei fod wedi comisiynu darparwr TG newydd i adolygu systemau i nodi "risgiau i ddiogelwch, cadernid a pherfformiad". Mae'r adroddiad yn nodi'r "buddsoddiad hollbwysig sydd ei angen i reoli diffygion o ran diogelwch a pherfformiad".⁷⁵

71. Dywedodd yr Ombwdsmon, er bod y rhain yn gostau sylweddol, ei fod yn ymwybodol o gostau enfawr colli systemau TG a/neu ddata a'r gost uchel o ran amser staff anghynhyrchiol os caiff systemau eu colli. Nododd hefyd mai'r gost amcangyfrifedig o reoli a datrys digwyddiad seiberddiogelwch ar gyfer sefydliad o faint tebyg yw £2.9 miliwn.⁷⁶

Archwilio Cymru

72. Ym mis Tachwedd 2021, ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad Teithio a Chynhaliaeth, ochr yn ochr â'i Amcangyfrif ar gyfer 2022-23.⁷⁷

73. Mae Cynllun Teithio a Chynhaliaeth Archwilio Cymru yn cynnwys lwfans teithio sefydlog blynyddol o £3,350, a delir i bob gweithiwr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu £746,000 ar gyfer y lwfans teithio yn 2022-23. Bwriad y lwfans teithio yw cyfrannu tuag at y gost o fod yn berchen ar gar. Gall staff sy'n derbyn y lwfans teithio sefydlog blynyddol hefyd hawlio am y milltiroedd a deithiwyd yn ystod busnes.⁷⁸

74. Yn dilyn adolygiad gwerth am arian o'i lawlyfr teithio a threuliau, a gynhaliwyd gan ei archwilwyr allanol, RSM, mae Archwilio Cymru yn cynnig cael gwared ar y lwfans teithio sefydlog blynyddol o fis Ebrill 2024. Yn lle hynny, bydd Archwilio Cymru yn darparu ar gyfer ad-dalu'r holl deithiau ar gyfraddau milltiroedd safonol Cyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, byddai gan staff yr opsiwn o dderbyn taliad ymlaen llaw o £7,000 ar gyfer prynu'r lwfans teithio sefydlog blynyddol yn gynnar (sy'n cynnwys dwy flynedd o'r lwfans, ynghyd â chymhelliant bach) yn gyfnewid am symud i'r cynllun newydd ddwy flynedd yn gynharach, ym mis Ebrill 2022.⁷⁹

⁷⁵ Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2021

⁷⁶ Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 28 Medi 2021

⁷⁷ Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 1 Tachwedd 2021

⁷⁸ Archwilio Cymru, Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, Hydref 2021

⁷⁹ Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid, 1 Tachwedd 2021

75. Wrth lunio cynllun olynol, mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i gyflawni o leiaf £1 miliwn o arbedion dros gyfnod o 5 mlynedd o 2024-25.⁸⁰

Prynu'r lwfans teithio yn gynnar

76. Mae Archwilio Cymru wedi cynnig bod cost y taliad ymlaen llaw ar gyfer prynu'r lwfans teithio yn gynnar (uchafswm o £1.48 miliwn) yn cael ei hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi trafod yn flaenorol y cais i ariannu prynu'n gynnar a'r cynllun newydd arfaethedig ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd) a Chadeirydd y Bwrdd yn ystod cyfarfod preifat ar 24 Tachwedd 2021.⁸¹ Ar gais y Pwyllgor, rhoddodd Archwilio Cymru wybodaeth fanwl bellach am y costau a'r arbedion cysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ysgrifennu at y Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau a'r arbedion gwirioneddol ac i drafod yr opsiynau a ganlyn ar gyfer dychwelyd unrhyw danwariant ac arbedion yn 2022-23:

- dychwelyd y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru fel tanwariant yng nghyfrifon 2022-23;
- gosod Amcangyfrif Atodol i ddychwelyd yr arbedion llawn i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn;
- gosod Amcangyfrif Atodol a Chynllun Ffioedd diwygiedig i rannu'r arbedion rhwng Cronfa Gyfunol Cymru a ffioedd.⁸²

77. Ar 1 Rhagfyr 2021, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor ar y gyllideb atodol o £1.48 miliwn yn 2021-22 i ariannu prynu Lwfans Teithio presennol Archwilio Cymru yn gynnar.⁸³

78. Mae'r gyllideb atodol yn ceisio darpariaeth ar gyfer yr uchafswm o £1.48 miliwn o gyllid sydd ei angen i gynnig yr opsiwn prynu'n gynnar i bawb sy'n gymwys.⁸⁴ Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Yn ôl cais y Pwyllgor Cyllid, os bydd y nifer sy'n derbyn y taliad ymlaen llaw yn llawer llai na'r disgwyl, bydd Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 yn cael ei baratoi i addasu'n briodol yr arian a dynnir i lawr."⁸⁵

⁸⁰ [Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid](#), 1 Tachwedd 2021

⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 24 Tachwedd 2021

⁸² [Llythyr gan Archwilio Cymru at y Pwyllgor Cyllid](#), 25 Tachwedd 2021

⁸³ [Llythyr at Archwilio Cymru gan y Pwyllgor Cyllid](#), 1 Rhagfyr 2021

⁸⁴ Archwilio Cymru, [Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru 2021-22](#)

⁸⁵ Archwilio Cymru, [Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru 2021-22](#)

Comisiwn y Senedd

79. Nid yw Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) yn gwneud unrhyw newidiadau i'w gyllideb weithredol o £41.7 miliwn ar gyfer 2021-22, fodd bynnag, mae'n cynnig dychwelyd arian dros ben o fewn y gyllideb costau ar ôl yr etholiad i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £1.2 miliwn yng nghyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau a £500,000 yn y gyllideb sy'n ymwneud ag etholiad.⁸⁶

80. Y rhagolwg presennol ar gyfer cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2021-22 yw £15.3 miliwn, sef tanwariant o £1.5 miliwn. Mae'r Comisiwn yn egluro mai'r "prif reswm am y tanwariant hwn yw am fod y gyllideb yn adlewyrchu dau gynnydd yn olynol i gyflogau Aelodau o'r Senedd na chawsant eu gweithredu yn y pen draw". Mae'r Comisiwn yn cynnig lleihau'r llinell gyllideb hon o £1.2 miliwn o'r tanwariant a nodwyd, yn hytrach na'r swm llawn o £1.5 miliwn, rhag ofn y gwneir unrhyw newidiadau pellach i'r Penderfyniad yn ystod y rhan sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol a'r tebygolrwydd y bydd eitemau annisgwyl yn effeithio ar y gyllideb hon (fel taliadau marwolaeth mewn gwasanaeth a hawliadau hwyr).⁸⁷

81. Mae cyllideb yr etholiad yn darparu arian i dalu am gostau terfynu swyddi'r Aelodau hynny na chânt eu hail-ethol a chostau'r taliadau dileu swyddi ar gyfer eu staff cymorth. Mae hefyd yn darparu offer a chefnogaeth TGCh ychwanegol i Aelodau newydd o'r Senedd, i dalu costau'r agoriad swyddogol ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ran llety. Ar hyn o bryd, y gwariant a ragwelir ar gyfer y cyllideb yr etholiad ar gyfer 2021-22 yw £1.9 miliwn, sef tanwariant o £0.7 miliwn. Mae'r Comisiwn yn cynnig lleihau'r llinell gyllideb hon gan £0.5 miliwn o'r tanwariant a nodwyd, yn hytrach na'r swm llawn, rhag ofn y bydd unrhyw eitemau hwyr yn codi.⁸⁸

82. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried cynigion y Comisiwn, gosododd y Comisiwn femorandwm esboniadol yn nodi'r gyllideb atodol a datgan pam bod ei hangen.⁸⁹

Barn y Pwyllgor

83. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ceisiadau cyllideb atodol gan y tri chorff a ariennir yn uniongyrchol. Mae'r Pwyllgor yn atgoffa'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid,⁹⁰ y dylid lliniaru pwysau cyllid yn ystod y flwyddyn ar eu cyllidebau priodol yn y lle cyntaf drwy wneud arbedion ac effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn,

⁸⁶ [Llythyr gan Gomisiwn y Senedd at y Pwyllgor Cyllid](#), 10 Ionawr 2022

⁸⁷ [Llythyr gan Gomisiwn y Senedd at y Pwyllgor Cyllid](#), 10 Ionawr 2022

⁸⁸ [Llythyr gan Gomisiwn y Senedd at y Pwyllgor Cyllid](#), 10 Ionawr 2022

⁸⁹ Comisiwn y Senedd, [Cyllideb Atodol 2021-22: Memorandwm Esboniadol](#), Ionawr 2022

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, [Datganiad o Egwyddorion](#)

yn hytrach na dibynnu ar gyllidebau atodol fel mater o drefn. Yn benodol, dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol fod yn ymwybodol o'r pwysau cyllid y mae'r sector cyhoeddus ehangach yn eu hwynebu a'r angen i geisio gwella prosesau a chronni arbedion effeithlonrwydd yn barhaus cyn gofyn am gyllid ychwanegol. Er bod y Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar y ceisiadau cyllideb atodol gan Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon, hoffai osgoi ystyried ceisiadau tebyg yn y dyfodol lle bynnag y bo modd.

84. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod arian dros ben wedi'i ddychwelyd gan Gomisiwn y Senedd o'i gostau ar ôl yr etholiad, ac y bydd, drwy hynny, yn lleihau'r arian a geisir o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn falch, yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol i'r defnydd o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau,⁹¹ yr ymrwymodd y Comisiwn yng Nghyllideb y Comisiwn ar gyfer 2021-22⁹² i ddychwelyd tanwariant neu arian dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod rheoli tanwariant fel hyn yn osgoi ailgyfeirio arian o'i ddiben datganedig ac yn sicrhau cyllidebau tryloyw.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad yn y cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad: Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

⁹² Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2021-22, Medi 2020
